

Duw Cariad

Emyn: 502 Caneuon Ffydd.

Adnod agoriadol:

“O Dduw y mae cariad, ac y mae pob un sy'n caru wedi ei eni o Dduw ac yn adnabod Duw. Yr hwn nad yw'n caru, nid yw'n adnabod Duw, oherwydd cariad yw Duw. Yn hyn y dangoswyd cariad Duw tuag atom: bod Duw wedi anfon ei unig anedig Fab i'r byd er mwyn i ni gael byw drwyddo ef.”

1 Ioan 4: 7 – 9.

Geiriau agoriadol:

Gan mai cariad yw hanfod Duw, cariad yw ffynhonnell ein bywyd ninnau. O ddyfnhau ein perthynas â Duw yr ydym yn treiddio'n ddyfnach i'w gariad ac i gyfrinach ddyfnaf ein bodolaeth ein hunain. Y mae cariad Duw yn tywynnu ar ein heneidiau, yn ennyn ynom ymateb o gariad tuag ato a thuag at ein cyd-ddynion.

Meddyliwch yn weddïgar dros y geiriau hyn gan Dostoyevsky:

“Fe ddysg cariad bopeth i ni....
Carwch ddyn, hyd yn oed yn ei bechod.
Carwch holl greadigaeth Duw, y cyfan,
a phob gronyn o dywod ynddo.
Carwch pob deilen, pob pelydryn o oleuni.
Carwch yr anifeiliaid,
carwch y planhigion,
carwch bob peth ar ei ben ei hun.
Os carwch bob peth,
fe gewch ddirnad dirgelwch Duw
ym mhob peth.”

Gweddi agoriadol:

Arglwydd,
y mae dy gariad yn ein cynhyrfu
ac yn ein cywilyddio.
Y mae'n datgelu tlodi ein cariad ni.
Y mae dy dosturi yn dangos
pa mor arwynebol a hunanol
yw ein tosturi ni.
Dduw cariad, trugarha wrthym.

Daethost atom yn Iesu Grist
i fynegi i ni dy gariad
ac i'n dysgu mai calon y greadigaeth
yw cariad costus, aberthol,
sy'n dioddef i'r eithaf,
yn gobeithio i'r eithaf,
yn dal ati i'r eithaf,
er mwyn ein hachub ni
o farwolaeth i fywyd.
Dduw cariad, trugarha wrthym.

Planna a meithrin dy gariad
yn ein calonnau ni.
Rho i ni wroldeb
i fyw yn ôl ei ofynion –
i geisio hawliau eraill
o flaen ein hawliau'n hunain;
i ymgyrchu dros y gwan a'r tlawd;
i rannu'n bywyd â'r newynog,
i roi o'n heiddo i'r tlawd,
i roi ein hamser a'n sylw
i'r unig a'r gwrthodedig.
Dduw cariad, gwrando ni.

Cyflwynna dy wyrth yn ein calonnau,
a gwna ni'n gyfryngau
dy deyrnas o gariad,
er mwyn Iesu Grist. Amen.

Darllen: Luc 15: 11 – 32.

Cefndir:

Beth yw cefndir y gair am gariad yn y Beibl?

Nid oes sicrwydd i neb ddefnyddio'r gair 'agapé' cyn i gyfieithwyr y cyfieithiad Groeg o'r Hen Destament ei ddefnyddio i drosi'r gair Hebraeg 'ahabah'. Ac felly fel cyfieithiad o 'ahabah' y mae dechrau dyfalu 'agape'. Gair am gariad yw 'ahabah' ond bod y cariad hwnnw o fath arbennig iawn. Trwy'r Hen Destament fe holir paham y dewisodd Duw Israel. Atebir yn bendant ddigon nad lluosogrwydd ei phobl na chyfiawnder ei buchedd a barodd i'r Arglwydd ei hoffi. "Nid am eich bod yn fwy niferus na'r holl bobloedd yr hoffodd yr Arglwydd chwi a'ch dewis", Deuteronomium 7: 7, a hefyd, "Felly ystyria di nad o achos dy gyfiawnder y mae'r Arglwydd dy Dduw yn rhoi iti'r wlad dda hon i'w meddiannu" Deuteronomium 9: 6.

Yn y pendraw nid oes ateb ond dywedyd iddo'i dewis, "oherwydd caru o'r Arglwydd chwi "neu" er mwyn y llw a dyngodd", Deuteronomium 7: 8, neu "er mwyn ei enw" Salm 23: 3. Nid yn Israel ond yn Nuw y mae achos ei gariad. A dyna yn union yw 'ahabah' – y cariad a gwyd o natur y sawl a gâr heb ei gymell gan ddim yn y gwrthrych a gerir. Yn y goddrych ac nid y gwrthrych y mae ei symbyliad. Yng ngeiriau mwy cyfarwydd Azariah Shadrach:

"Nid dim rhinweddau ynom ni.....

Fu'n achos iddo garu dyn

Fe'i carodd er ei fwyn Ei Hun."

Dyma'r cariad a fynegir gan 'ahabah' a chan y gair Groeg 'agape' a fathwyd i'w drosi. Nid serch (erôs) mo'r cariad hwn, canys symbylir serch bob amser gan hawddgarwch y gwrthrych a chan awydd i'w feddiannu. Rhoddi y mae cariad, chwennych y mae serch.

Isaac Thomas, Y Dysgedydd 1952.

Llais 1:

Ddwywaith yn unig y ceir y gair 'agape' ar wefusau'r Iesu yn ôl y tair efengyl cyntaf.

"Daeth Mab y Dyn i geisio ac i achub y colledig." Luc 19: 10.

“Oherwydd i alw pechaduriaid, nid rhai cyfiawn, yr wyf fi wedi dod.”
Mathew 9: 13.

Mae'r adnodau hyn yn ddisgrifiad perffaith o ystyr ac amcan gweinidogaeth Iesu – galw, ceisio a chadw yw'r allwedd eiriau gan fod y cymhelliad yn yr Hwn sy'n galw ac yn ceisio'n unig, heb ddim yn y sawl a geisir ac a elwir i'w gymell. Gwahoddiad anhunanol yw ei wahoddiad ef a chariad diamod a diderfyn yw ei gariad.

Emyn: 171 Caneuon Ffydd (*canu'r emyn ar ein heistedd yn dawel.*)

Llais 2:

Mae'r adnod “i geisio ac i achub y colledig” yn glo i hanes Sacheus. Pwy yw'r un “colledig”? Yn y Testament Newydd nid ystyr ‘un wedi ei ddilorni a'i waradwyddo’ sydd yma ond y syniad o rywun yn y lle anghywir. Pan fo rhywbeth ar goll mae hynny'n golygu nad yw yn ei le iawn, ei le arferol ac mae wedi mynd i'r lle anghywir. A phan fyddwn ni'n darganfod y peth sydd ar goll rydyn ni yn ei roi yn ei le cywir. Pan fo dyn ar goll mae wedi crwydro oddi wrth Dduw. Wedyn, ar ôl ei ddarganfod, mae'n dod i berthynas gywir a chlos â'i Dad. Dyma oedd yr hanes a glywsom yn efengyl Luc. Roedd y mab ieuengaf wedi gadael cartref ond, yn fwy na hynny, roedd wedi torri'r berthynas rhyngddo â'i dad. Neges fawr diweddglo'r ddameg ydi fod y berthynas oedd rhyngddo â'i dad wedi'i chyfannu. Ond doedd hyn ddim yn wir am y berthynas rhwng y mab hynaf a'r tad. Er fod y tad ac yntau yn byw dan yr un to, yn cydweithio ar y fferm, yn cyd fwyta wrth y bwrdd eto nid perthynas gyflawn, ddi-dor oedd hon. Gwrthod ymuno yn y wledd wnaeth y mab hynaf. Allan ar y buarth, gyda'r tad yn erfyn arno, mae'r ddameg yn cloi. Perthynas doredig, anghyflawn oedd. Cymell er mwyn y mab ieuengaf, er mwyn unoliaeth y teulu mae'r tad. Mae'r adnod hon yn croniclo nodwedd amlwg efengyl Luc, sef yr efengyl fel newyddion da i bechaduriaid a phublicanod, sef y rhai difreintiedig yn Israel.

Llais 3:

Cawn yr un nod yn efengyl Mathew. Diddorol yw sylwi fod yr adnod o efengyl Luc a'r ail o efengyl Mathew yn ymwneud â chasglwr trethi. Casglwr trethi oedd Sacheus a chasglwr trethi oedd Mathew. Agwedd

gwbl wahanol oedd agwedd y Phariseaid a'r Ysgrifenyddion. Iddyn nhw, pobl i'w hanwybyddu oedd teip Sacheus a Mathew. Crefydd hunanol oedd crefydd y Phariseaid lle rhoddid mwy o bwyslais ar eu heneidiau eu hunain yn hytrach nag ar eneidiau eraill. Rhy barod oedden nhw i bwyntio bys a chondemnio yn hytrach na rhoi cymorth a chefnogaeth. Gweld y pechod yn hytrach na rhoi llaw i helpu'r truan i orchfygu'i bechod oedd rhagoriaeth y bobl yma. Gweld pechadur oedd y Phariseaid, gweld y person oedd Iesu a'r person yn ei angen. Dim ond y rhai sy'n gwybod yn nyfnder eu calonnau eu bod angen Iesu yw'r rhai sy'n barod i ymateb i'w wahoddiad.

Emyn: 483 Caneuon Ffydd.

Gweddi:

Diolch i ti, O Dduw ein Tad,
mai mewn cariad yr wyt ti wedi delio â ni erioed.
Yn dy gariad y ceraist ddyn ar dy lun a'th ddelw dy hun
a gwneud y byd yn llawn cyfoeth ac amrywiaeth ar ei gyfer.
Yn dy gariad daethost yn agos iawn atom
yn dy Fab, Iesu Grist,
gan ddangos dy hun yn Dad tyner a graslon.
Yn ei dosturi ef,
yn ymgeleddu'r gwan,
yn cysuro'r anghenus,
ac yn iacháu'r cystuddiol,
dysgodd i ni wir ystyr cariad.
Yn ei unigrwydd a'i ddiodefaint.
yn ing ac yn angau'r groes,
datguddiodd i ni ddyfnder a dirgelwch y cariad dwyfol.
Diolchwn mai yn y cariad hwn
yr ydym yn byw, yn symud ac yn bod,
a bod dy gariad di yn gorlifo
i bob perthynas o gariad rhyngom â'n gilydd:
â'n hanwyliaid, ein cyfeillion, ein cymdogion
a'n cyd-ddynion ym mhob man.
Bendithia'n cyfeillion a gwna ni bob amser

yn ffyddlon i'n gilydd,
yn barod ein cymwynas,
ac yn werthfawrogol o bob caredigrwydd.
Bendithia'n hanwyliaid a'n teuluoedd:
gwna ni'n rasol ac amyneddgar
ac yn ofalus bob amser o les ein gilydd.
Bendithia ni yn ein hymwneud â'n cyd-ddyn:
yn arbennig cynorthwya ni
i garu'r digyfaill,
y gwrthodedig,
a'r rhai nad yw'n hawdd i ni eu hoffi.
Dysg ni oll i garu fel y carodd Crist;
i dyfu mewn gras,
mewn tosturi ac mewn brawdgarwch,
ac i adlewyrchu'n wastad
ei gariad rhyfeddol a diderfyn ef. Amen.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfrio:

Cydddrodd neu gydganu Gweddi'r Arglwydd.

Llais 4:

Neges yr efengyl Gristnogol yw fod Duw yn ein caru. Ond beth am ein cariad ni tuag at ein cyd-ddynion? Tueddu i ddewis a dethol wnawn ni. Caru ffrindiau a charu pobl sy'n debyg i ni; o'r un anian â ni. Ond mae lesu yn ein hannog i garu'n gilydd ond hefyd i fynd y cam nesaf, y cam anodd o garu'n gelynion. Caru'r rhai sy'n gwneud drwg i ni – caru'r rhai sy'n ein casáu a ninnau'n eu casáu hwythau. Fel hyn y mae Luc yn cyfleu'r darlun i ni:

“Ond wrthyhych chwi sy'n gwrando rwy'n dweud: carwch eich gelynion, gwnewch ddaioni i'r rhai sy'n eich casáu, bendithiwch y rhai sy'n eich melltithio, gweddiwch dros y rhai sy'n eich cam-drin. Pan fydd rhywun yn dy daro ar dy foch, cynigia'r llall iddo hefyd; pan fydd un yn cymryd dy fantell, paid â'i rwystro rhag cymryd dy grys hefyd.”

Luc 6: 27 – 29.

Cawn enghraifft o Iesu yn maddau i'w elynion pan oedd yn dioddef ar y groes:

“Pan ddaethant i'r lle a elwir Y Benglog, yno croeshoeliwyd ef a'r troseddwr, y naill ar y dde a'r llall ar y chwith iddo. Ac meddai Iesu, “O Dad, maddau iddynt, oherwydd ni wyddant beth y maent yn ei wneud.””

Luc 23: 33 – 34.

Nid yn unig mae Iesu yn annog ei bobl i faddau i'w gelynion ond mae ef ei hun yn dangos y ffordd trwy faddau i'r rhai oedd yn pwyo'r hoelion, yn ei gernodio a'i wawdio, ar Galfaria.

Cyfnod o ddistawrwydd i fyfyrrio:

Cwestiynau i'w trafod:

Sut fyddech chi'n mynd ati i geisio dehongli cariad Duw wrth bobl sy'n wynebu:

- a. afiechyd a phoen
- b. siom bersonol
- c. trychinebau
- ch. newyn a syched

Fyddai'r bobl sy'n wynebu argyfyngau bywyd yn dweud fod Duw yn Dduw cariad?

Tybed all cariad, fel cariad y tad yn y ddameg a ddarllenwyd, ddangos ochr wan a di asgwrn cefn? Onid oedd y tad yn maddau yn rhy rhad o lawer?

Beth am ymateb y mab hynaf yn y ddameg? Allan y gadawyd ef ac felly onid oes yna bobl sydd tu hwnt i gariad tad a chariad Duw?

Fedrwch chi feddwl am enghreifftiau heddiw o bobl sydd wedi caru 'gelynion' ac wedi'u derbyn? Oes gennych chi enghraifft o'ch bywyd chi? Agorwch eich calon a rhannwch y profiad. Profiad personol sy'n mynd i siarad yn y pen draw.

Fyddech chi'n dweud mai cariad ydi'r unig elfen all ddod â'r byd at ei hun?

Stori i gloi:

“Mi ydw i'n mynd i dy ladd di.”

“Paid â bod yn wirion. Pwy wyt ti? Be wyt ti'n ei wneud yn fan'ma? Be ydi dy enw di?”

Sylwodd y plismon, Arthur Rowlands, yng ngolau'i fflachlamp, fod gwn dwbl baril wedi'i lifio yn anelu'n syth tuag ato.

Atebodd y dyn, “Robert Boyden,” neu eiriau tebyg. Taniodd y gwn. Teimlodd y plismon fel petai rhywun wedi taflu rhawiad o dân i'w wyneb. Roedd o'n llosgi. Syrthiodd ar ei liniau. “Dyma'r diwedd,” meddai wrtho'i hun ac yna clywodd leisiau o'i gwmpas. Roedd y postmon lleol wedi cael ei godi o'i wely gan sŵn yr ergyd ac roedd yr heddwes oedd gyda Arthur Rowlands wedi cyrraedd. Pan gyrhaeddodd nhw Arthur, roedd gwaed ar ei wyneb, ei helmed ar lawr a'i fflachlamp yn dal ynghynn. Erbyn 4:15 y bore, roedd wedi cyrraedd Ysbyty Cyffredinol Aberystwyth. Yn ôl y meddygon, roedd wedi ei anafu'n ddifrifol iawn; roedden nhw'n sicr y byddai'n ddall. Yn wir doedden nhw ddim yn sicr y byddai byw. Cafodd drallwysiad gwaed. Bu'n anymwybodol am oriau. Cyrhaeddodd ei wraig, Olwen. Cafodd fynd i'w weld. Er na allai hi weld fawr ddim ohono gan fod rhwymynnau dros ei wyneb, cododd ei chalon pan glywodd y nyrs yn dweud fod ei byls wedi cryfhau wrth iddi siarad ag ef. Cyn diwedd y p'nawn hwnnw roedd wedi ei symud i ysbyty arall, yng Nghas-gwent. Y bore wedyn cafodd lawdriniaeth i geisio adfer ei wyneb. Ond er yr holl ymdrechion, neges y llawfeddyg, Emlyn Lewis, oedd,

“Mae'n ddrwg gen i, Arthur. Weli di byth mwy. Y gwn yna ddaru dy saethu di oedd y peth ola weli di.”

I Arthur Rowlands y geiriau yma oedd yn troi a throi yn ei ben, “Weli di byth mwy...” Dechreuodd ei byls wanhau unwaith eto. Daeth ei frawd a'i frawd-yng-nghyfraith i'w weld. Rywsut roedd rhaid gwneud rhywbeth i geisio edrych ymlaen i'r dyfodol. Dechreuodd feddwl am ei wraig a'i ddau blentyn, Carol a Gareth. Dyma ddechrau'r daith yn ôl.

Ar Bont ar Ddyfi y noson honno, Awst 1, 1961, wynebodd Arthur Rowlands y gwallgofddyn a'i saethodd. Roedd yr ardal i gyd yn ferw

gwyllt, roedd yn rhaid dal y dihiryn. Bu heddluoedd o sawl ardal yn chwilio amdano. Roedd ganddyn nhw enw, Robert Boyden, neu enw tebyg. Ymhen wythnos roedd Boynton, dyna'r enw cywir, yn Swyddfa'r Heddlu ym Machynlleth yn cael ei holi, diolch i'r gath!

Tua phump o'r gloch fore Llun, Awst 7, cododd Robert Jones o Aberllefenni i ollwng y gath oedd yn swnian yn y tŷ. Clywodd Llywela'r ferch sŵn ei thad a chododd i'r ffenestr. Gwelodd ddyn yn yr ardd yn bwyta pys. Rhedodd Robert Jones allan a galw'r cymdogion. Galwyd yr heddlu. Cyn pen dim, roedd plismyn a chŵn wedi cyrraedd. Llwyddodd y ci Derry i godi'r trywydd. Roedd y fagl yn cau amdano. Roedd Derry ar ei sodlau. Cododd Boynton ei wn a saethu'r ci yn ddrwg iawn. Ceisiodd saethu at yr heddwesion. Syrthiodd a dyna pryd yr hyrddiodd yr heddwes ei hun arno a chael cymorth un o'r cyhoedd i afael yn dynn ynddo.

Anodd iawn yn ystod y mis cyntaf wedi'r digwyddiad oedd maddau i'r gwallgofddyn hwnnw. Ond, erbyn hyn, mae Arthur Rowlands wedi maddau'n llwyr i'r dihiryn. Yng ngeiriau'r cyn-blismon, "Os oes gan rywun le i ddiolch, y fi ydi hwnnw."

Emyn: 204 Caneuon Ffydd.

Y Fendith:

Arglwydd, gwna fi'n offeryn dy dangnefedd:
Ile bo casineb, boed i mi hau cariad,
Ile bo tramgwydd, maddeuant,
Ile bo anghydfod, undeb,
Ile bo amheuaeth, ffydd,
Ile bo anobaith, gobaith,
Ile bo tywyllwch, goleuni,
Ile bo tristwch, llawenydd;
er mwyn dy drugaredd a'th wirionedd. Amen.